Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Croes Atti
# Chester Road
# Y Fflint
# Sir y Fflint
# CH6 5DU

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Croes Atti yn nhref Y Fflint. Mae’n gwasanaethu’r dref a’r ardal gyfagos. Darpara addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

Ar hyn o bryd, mae 227 o ddisgyblion ar y gofrestr ac maent wedi eu rhannu’n wyth ddosbarth oed cymysg. Ers mis Medi 2014, mae’r ysgol yn gyfrifol am ail safle yn Shotton gyda 25 o ddisgyblion mewn dosbarth cymysg meithrin a derbyn yno. Mae tua 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Daw 86% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae’r ysgol yn nodi bod gan 19% o’r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym mis Ionawr 2015. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2015-2016 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Croes Atti yw £3,448. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir y Fflint yw £4,838 a’r isafswm yw £2,809. Mae Ysgol Gynradd Croes Atti yn yr 31ain safle allan o’r 67 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Defnydd llafar y disgyblion yn y Gymraeg yn nodwedd arbennig o gref yn yr ysgol
- Mae medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus
- Ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda
- Ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol
- Yr ysgol yn gymuned glos, ofalgar a chyfeillgar

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y pennaeth yn darparu arweiniad clir a chyfeiriad strategol cadarn i'r ysgol
- Staff yn gweithio'n agos fel tîm i godi safonau a darparu amgylchedd dysgu hapus, gofalgar a diogel
- Sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- Hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod cryfderau'r ysgol yn dda a'r hyn sydd angen ei wella
- Ystod o bartneriaethau sy'n cyfrannu tuag at gyfoethogi'r ddarpariaeth
- Arweinwyr wedi sefydlu trefniadau effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion bregus

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod deilliannau disgyblion mwy abl yn cymharu’n well ag ysgolion tebyg

A2 Darparu tasgau sy’n herio’r disgyblion mwy abl yn fwy cyson

A3 Gwella presenoldeb

A4 Cryfhau gallu’r corff llywodraethol i herio’r ysgol ac i chwarae rôl fwy strategol yn arweinyddiaeth yr ysgol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau iaith a phersonol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn is na'r disgwyl. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u man cychwyn.

Mae medrau gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn dda, ac maent yn medru cyfeirio at ddysgu blaenorol yn llwyddiannus gan ddefnyddio'r wybodaeth yn addas yn eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion hŷn yn cyfrannu'n estynedig wrth ateb cwestiynau a mynegi barn mewn ystod o sefyllfaoedd gyda staff, ymwelwyr ac â'i gilydd. Mae defnydd llafar y disgyblion yn y Gymraeg yn nodwedd arbennig o gref yn yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn dda ar lefel sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac mae llawer yn darllen gyda chywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon yn y ddwy iaith. Maent yn ddigon parod i drafod cynnwys llyfrau ac i wneud defnydd addas o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau ac o'r we.

Mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd sylweddol â'u hysgrifennu cynnar ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol ac yn gywir mewn amryw o ffurfiau. Maent yn ysgrifennu'n effeithiol ar draws y cwricwlwm mewn pynciau fel hanes a daearyddiaeth. Mae ansawdd sillafu a chyflwyniad gwaith yn dda ar draws yr ysgol.

Mae safonau rhifedd y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn cymhwyso medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwaith thematig, er enghraifft wrth gasglu a chyflwyno data ar ffurf tabl rhicbren a graff bar wrth gynllunio diod ffrwythau. Yng nghyfnod allweddol, 2 mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau mathemateg pen yn dda i ddatrys problemau. Mae llawer yn cymhwyso eu dealltwriaeth o weithdrefnau mathemategol yn llwyddiannus mewn gwaith thematig, er enghraifft gwaith data sy'n dangos effaith pellter ar gryfder sain a golau.

Er bod gostyngiad yng nghanlyniadau 2015 o gymharu â 2014, mae perfformiad disgyblion ar y deilliannau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o gymharu ag ysgolion tebyg wedi bod yn gyson yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol. Ar y deilliannau uwch, mae perfformiad

wedi bod yn gyson yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf, ond syrthiodd y canlyniadau mewn datblygiad mathemategol i'r 50% is yn 2015. Yn gyffredinol, mae'r merched wedi tueddu i berfformio'n well na'r bechgyn mewn medrau llythrennedd dros y pedair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf yn y Gymraeg a Saesneg o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uchaf. Dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch, sef lefel 5, yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg wedi bod yn weddol gyson yn y 50% is neu'r 25% isaf.

Mae'r merched wedi tueddu i berfformio'n well na'r bechgyn yn y Gymraeg a'r Saesneg a'r bechgyn yn well ar y lefel uwch mewn mathemateg dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Dros amser, mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2 wedi tanberfformio o gymharu â'u cyfoedion. Fodd bynnag, newidiodd y tuedd yn 2014. Mae tystiolaeth yr arolygiad yn cadarnhau bod gwelliannau amlwg yn eu gwaith ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu gwaith, ond nid yw'r disgyblion mwy galluog yn cyflawni cystal ag y gallent.

**Lles: Digonol**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd da o'r siop ffrwythau, bar salad a'r ffynnon ddŵr a gallant resymu ynghylch pam mae hynny'n llesol. Mae'r disgyblion yn manteisio ar y rhaglen o gyfleoedd allgyrsiol eang sy'n cael ei darparu gan yr ysgol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol yn eu gwersi ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith.

Mae'r cyngor ysgol a'r clwb eco yn cyfarfod yn rheolaidd a phob aelod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y gwaith. Mae'r cyngor ysgol yn chwarae rhan flaenllaw yn yr ysgol a chaiff llawer o'r penderfyniadau ddylanwad cadarnhaol ar iechyd a lles y disgyblion. Er enghraifft, mae'r cyngor wedi sefydlu 'Bocs Bwrw Bol' yn y dosbarthiadau a lliwio meinciau i hyrwyddo buarth ysgol ofalgar.

Er bod camau cadarn gan yr ysgol i wella'r gyfradd presenoldeb, mae'r ysgol wedi'i gosod ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion o allu uwch bob amser yn derbyn digon o her.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cynlluniau yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn hybu'r medrau cyfathrebu a rhifedd yn llwyddiannus. Mae llawer o raglenni ymyrraeth addas ar gyfer hybu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn ganolog i waith yr ysgol. Mae safon modelu iaith pob oedolyn yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at safonau llafaredd y disgyblion. Trwy ymweliadau â gwahanol fannau, fel y Cynulliad, a chymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o hanes a diwylliant Cymru. Daw artistiaid a beirdd lleol i'r ysgol i gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am bwysigrwydd byw yn iach ac yn gynaliadwy. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd cyson i weithio yn ardd yr ysgol ac i dyfu llysiau. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd eang yn briodol trwy ei hastudiaethau dosbarth a chysylltiadau â gwledydd eraill.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi yn ofalus ac yn defnyddio dulliau holi effeithiol i ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Defnyddia'r athrawon amryw o ddulliau a strategaethau dysgu i ennyn diddordeb y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau bob amser yn ddigon heriol i ymestyn y disgyblion mwy galluog.

Mae'r berthynas rhwng oedolion a'r disgyblion yn creu parch a chwrteisi ac mae awyrgylch gweithgar yn y dosbarthiadau. Mae'r cymorthyddion yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus iawn fel tîm.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau addas i ddangos i'r disgyblion yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r disgyblion hefyd yn derbyn adborth llafar adeiladol ar eu gwaith a'u hymdrechion. Mae cyfleoedd i ddisgyblion asesu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd yn datblygu'n dda.

Mae adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr ac yn bodloni'r gofynion. Mae'r ysgol hefyd yn paratoi adroddiadau hanner blwyddyn defnyddiol i arfarnu cynnydd y disgyblion tuag at eu targedau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus ac mae lefel uchel o barch rhwng staff a disgyblion. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda drwy wasanaethau ysgol, sesiynau addoli yn y dosbarthiadau a'r rhaglen waith addysg grefyddol. Mae gweithdrefnau effeithiol i hybu ymddygiad da ac mae disgyblion yn ymateb i staff ac ymwelwyr yn barchus. Mae trefniadau addas ar gyfer delio ag unrhyw fwlio neu aflonyddwch.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar gymorth proffesiynol pan fod angen. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu sesiynau addysgol gyda'r heddlu ar gyfer ystod oedrannau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer adnabod disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn gynnar. Gwneir defnydd effeithiol o gymorthyddion i sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cefnogaeth fuddiol. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau penodol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y staff ar y cyd â rhieni a disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol iawn sy'n cynnig cyfle cyfartal i bawb. Mae awyrgylch cynnes yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Mae polisïau a gweithdrefnau addas yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn llwyddiannus.

Gwneir defnydd gwerthfawr o'r prif adeiladau a thir yr ysgol fel adnoddau dysgu i ddisgyblion. Mae'r safle a'r adeiladau mewn cyflwr da ac maent yn cael eu cynnal yn effeithiol. Mae arddangosfeydd lliwgar ac atyniadol o waith y disgyblion yn yr ystafelloedd ac ar hyd y coridorau. Mae'r rhain yn cyfrannu'n fuddiol at greu amgylchedd deniadol sy'n atgyfnerthu'r dysgu. Mae'r staff yn gwneud defnydd llwyddiannus o'r ardal allanol, yn enwedig ar gyfer hybu dysgu'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gardd yr ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o blanhigion a mentergarwch. Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau da sydd yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i hybu'r dysgu a'r addysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a chyfeiriad strategol cadarn ar gyfer yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl staff. Mae'n dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn hybu cydweithio a rhannu arfer dda gydag ysgolion eraill. Er enghraifft, mae athrawon yn ymweld ag ysgolion i hyrwyddo egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, datblygu strategaethau dysgu ar gyfer yr iaith Gymraeg a rhannu gweithdrefnau anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r staff yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae ymrwymiad ar y cyd i godi safonau gwaith disgyblion a darparu amgylchedd dysgu hapus, gofalgar a diogel. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar safonau cyflawniad a chynnydd disgyblion.

Mae'r arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a chodi safonau disgyblion bregus, yn dda. Mae'r ysgol yn gweithredu strategaethau yn llwyddiannus i leihau effaith amddifadedd ar gyflawniad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.  Fodd bynnag, nid yw eu rôl strategol yn y broses hunanarfarnu wedi'i datblygu'n llawn.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol.  Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a thrafodaethau beirniadol gyda staff ynglŷn â safonau a'r ddarpariaeth.  Mae'r uwch dim rheoli yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i lunio adroddiad hunanarfarnu.

Defnyddir y wybodaeth sy'n deillio o'r broses hunanarfarnu yn effeithiol i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu blaenoriaethu.  Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn drylwyr ac yn cynnig darlun cywir a gonest o'r ysgol.  Mae'r ddogfen yn amlygu'n glir yr agweddau sydd angen eu gwella.

Mae cysylltiad agos rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol.  Mae'r cynllun gwella yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a chyraeddadwy.  Mae'n cynnwys manylion meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion.  Mae hefyd yn rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, amserlen gweithredu, gofynion cyllidol, cyfleoedd hyfforddiant a threfniadau monitro cynnydd. Caiff y cynllun gwella ei fonitro'n effeithiol gan y pennaeth a'r staff ac mae hyn yn sicrhau bod cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau.  Mae camau gweithredu'r cynllun eisoes wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safonau darllen a llythrennedd disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Gweithia'r ysgol yn llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol, gan gynnwys swyddogion gwella'r awdurdod lleol, arbenigwyr cefnogi disgyblion ac asiantaethau allanol.  Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rhieni.  Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn cyfrannu arian sylweddol at brynu adnoddau a chyfarpar er budd y disgyblion. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth rhieni.

Mae partneriaeth gadarn â'r gymuned leol.   Mae ymweliadau â'r gymuned a'r defnydd o unigolion lleol yn gwneud cyfraniad pwysig i ddysgu'r disgyblion.  Mae hyn hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol.  Er enghraifft, mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol i gynorthwyo disgyblion â'u medrau darllen a cherddorol.

Mae perthynas lwyddiannus gyda'r cylch cyn-ysgol sy'n cyfarfod ar dir yr ysgol ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cylch yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio llwyddiannus ar gyfer disgyblion.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Defnyddir cymorthyddion dosbarth a staff cymorth yn effeithiol i roi cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn effeithiol. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn cyfrannu'n dda at welliannau mewn addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gadarn. Mae nifer o rwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol yn bodoli gydag ysgolion eraill sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i athrawon a chymorthyddion ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio ar hyn o bryd gydag ysgolion eraill yn y dalgylch i greu pecynnau adnoddau addysgu Cymraeg ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i godi safonau llythrennedd ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau grŵp arbennig o ddisgyblion.

O ystyried safonau disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6642257 - Ysgol Gymraeg Croes Atti**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 208 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.9 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 29 | 37 | 17 |
| | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 93.1 | 89.2 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 37 | 17 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.1 | 91.9 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.0 | 29.7 | 41.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 |
| | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 37 | 17 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.6 | 91.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.6 | 35.1 | 47.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 |
| | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 37 | 17 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.6 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 41.4 | 62.2 | 58.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6642257 - Ysgol Gymraeg Croes Atti**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 208 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.9 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 17 | 20 | 17 | 21 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 82.4 | 85.0 | 94.1 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 20 | 17 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.2 | 85.0 | 94.1 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.4 | 30.0 | 29.4 | 23.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 20 | 17 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.2 | 85.0 | 94.1 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 17.6 | 25.0 | 17.6 | 9.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 20 | 17 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 82.4 | 95.0 | 94.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 17.6 | 35.0 | 35.3 | 23.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 17 | 20 | 17 | 21 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 82.4 | 95.0 | 94.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.4 | 60.0 | 58.8 | 9.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 110 | 108<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 105 | 85<br>81% | 20<br>19% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 112 | 110<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 112 | 110<br>98% | 2<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 111 | 110<br>99% | 1<br>1% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 101 | 97<br>96% | 4<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 110 | 109<br>99% | 1<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 111 | 108<br>97% | 3<br>3% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 106 | 84<br>79% | 22<br>21% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 107 | 99<br>93% | 8<br>7% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 101 | 85<br>84% | 16<br>16% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 101 | 97<br>96% | 4<br>4% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 65 | 34 | 31 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 52% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 65 | 49 | 16 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 65 | 44 | 21 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 62 | 26 | 34 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 42% | 55% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 61 | 20 | 41 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 33% | 67% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 64 | 32 | 32 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 65 | 35 | 30 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 60 | 14 | 33 | 11 | 2 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 23% | 55% | 18% | 3% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 62 | 26 | 35 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 42% | 56% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 57 | 26 | 31 | 0 | 0 | 7 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 46% | 54% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 63 | 33 | 30 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 52% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 55 | 16 | 38 | 1 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 29% | 69% | 2% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 63 | 14 | 41 | 8 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 22% | 65% | 13% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 64 | 28 | 35 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 44% | 55% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 58 | 17 | 30 | 9 | 2 | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 29% | 52% | 16% | 3% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 61 | 27 | 33 | 1 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 44% | 54% | 2% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 44 | 15 | 26 | 3 | 0 | 14 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 34% | 59% | 7% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 65 | 23 | 33 | 9 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 35% | 51% | 14% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 63 | 23 | 38 | 2 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 37% | 60% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Owain Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwyn Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.